# CYNHYRCHYDD IEUENCTID CREADIGOL, LLAWRYDD

**GWYBODAETH RECRIWTIO**




> **THE COMPANY WHO BURST OPEN OUR CONSCIOUSNESS**
>
> *Lyn Gardner, The Guardian*

# GWYBODAETH AM COMMON/WEALTH




**Mae Common/Wealth yn gwmni theatr gwleidyddol a chanddo swyddfa yn Bradford a Chaerdydd. Rydym yn creu theatr a digwyddiadau penodol i safle sy'n cwmpasu perfformiadau wedi'u dyfeisio, arddulliau ysgrifennu newydd, dyluniadau gweledol a deunydd gair am air.**

**Mae ein gwaith yn wleidyddol ac yn gyfoes – gwaith artistig o ansawdd uchel sy'n berthnasol ac yn mynd i'r afael â phryderon ein hoes.**

**Mae ein syniadau wedi'u gwreiddio mewn gwleidyddiaeth sosialaidd, cefndiroedd dosbarth gweithiol, diddordeb brwd mewn theatr gyfoes, celf a dylunio, y bobl rydyn ni'n eu cyfarfod, ac uchelgais radical i newid pethau.**

# DISGRIFIAD O'R PROSIECT A'R RÔL

Mae Common/Wealth yn chwilio am Gynhyrchydd Ieuenctid Creadigol (CYP) llawrydd i weithio ar ein rhaglen greadigol yng Nghaerdydd.

Bydd y CYP yn gyfrifol am recriwtio a meithrin perthynas â phobl ifanc a fydd yn cymryd rhan yn **Take Your Place**. Bydd y prosiectau'n digwydd yn Ne Caerdydd. Bydd y CYP yn gweithio gyda Common/Wealth i gyd-ddylunio a chyd-hwyluso sesiynau creadigol Take Your Place.

Bydd y CYP hefyd yn cefnogi Common/Wealth gyda dyletswyddau gweinyddol, megis archebu lleoedd ar gyfer gweithdai, teithio a llety, rheoli anfonebau, a dogfennau a gwerthusiadau ategol.

## GWYBODAETH AM TAKE YOUR PLACE

Mae **Take Your Place** yn brosiect arweinyddiaeth ym maes y celfyddydau ac actifiaeth ar gyfer pobl ifanc dosbarth gweithiol yng Nghaerdydd. Gan weithio gyda phobl ifanc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a heb wasanaeth digonol, mae **Take Your Place** yn meithrin sgiliau, hyder a rhwydweithiau fel bod ein pobl ifanc yn cael eu gweld, eu clywed, eu cefnogi, a'u grymuso i sicrhau newid.

Mae **Take Your Place** yn datblygu dulliau dysgu, mewnwelediadau, rhwydweithiau a hunangred. Rydyn ni'n cyflwyno pobl ifanc i hyfforddiant na fyddent fel arall yn gallu ei gael: siarad cyhoeddus, arweinyddiaeth greadigol, gwrando'n astud, ac ymgyrchu dros gyfiawnder cymdeithasol - pethau nad ydynt yn aml yn cael eu dysgu yn yr ysgol, ond sgiliau sy'n cynnig posibiliadau ac yn meithrin angerdd. Rydyn ni'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar asedau. Gwybod pwy ydyn ni, o ble rydyn ni'n dod, a beth rydyn ni'n ei gyfrannu.

## GWYBODAETH AM Y RÔL

- Recriwtio 15-20 o bobl ifanc (gan ganolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau ifanc dosbarth gweithiol, mwyafrif byd-eang, a chroestoriadol)
- Datblygu a chynnal perthnasoedd â phobl ifanc a chynnig cefnogaeth fugeiliol
- Cyd-ddylunio, cynllunio a chyd-hwyluso sesiynau **Take Your Place**
- Dogfennau a gwerthusiadau ategol
- Dyletswyddau gweinyddol cyffredinol

# MANYLEB Y PERSON

## MANYLION Y RÔL

**Teitl y Rôl:** Cynhyrchydd Ieuenctid Creadigol

**Ffi:** £3,500, 20 diwrnod am £175 y dydd

**Dyddiadau:** Gorffennaf 2025 - Mawrth 2026 (hyblyg, yn cynnwys gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau)

**Statws y contract:** Llawrydd

**Yn atebol i'r:** Cyd-Gyfarwyddwr Artistig/Cynhyrchydd Creadigol

**Lleoliad:** amrywiol leoliadau yng Nghaerdydd

## MANYLEB Y PERSON

Byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n gwneud cais fodloni'r holl ofynion hanfodol a meddu ar rai o'r gofynion dymunol hefyd:

**Hanfodol:**

- O leiaf blwyddyn o brofiad o gynhyrchu theatr/perfformiad
- O leiaf blwyddyn o brofiad o arwain neu gyd-hwyluso gweithdai/sesiynau creadigol gyda phobl ifanc, yn ddelfrydol rhai 12-26 oed
- Profiad o ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl ifanc a darparu cefnogaeth fugeiliol
- Gallu cyfathrebu'n gryf ar lafar ac yn gyfforddus yn siarad ag ystod eang o bobl. Rhugl yn Saesneg (er nad oes rhaid i Saesneg fod yn iaith gyntaf i chi)
- Sgiliau ysgrifennu hyderus, gan ddangos eich bod yn gallu addasu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion
- Rhywfaint o brofiad o brosesau allgymorth/denu pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiectau celfyddydol
- Rhywfaint o brofiad o ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer y theatr/celfyddydau

# MANYLEB Y PERSON (CTD.)

- Sgiliau gweinyddol cryf, trefnus, a gallu rheoli amser yn dda
- Sylw rhagorol i fanylion, a chywirdeb
- Rhywfaint o brofiad o reoli cyllidebau prosiectau
- Dealltwriaeth dda o ddiogelu pobl ifanc - deddfwriaeth, gweithdrefnau ac arfer gorau
- Medrus wrth ddefnyddio TG, gallu defnyddio pecynnau meddalwedd a ddefnyddir yn eang, e.e. e-bost, Word, Excel neu gyfatebol
- Gallu cymell eich hun, dangos menter a pherchnogaeth, a gallu gweithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth, ac fel rhan o dîm
- Gallu gweithio ar yr un pryd ar draws ystod o brosiectau, blaenoriaethu llwyth gwaith, a gweithio i derfynau amser
- Gallu gweithio'n ddiogel ac yn gyfrinachol drwy fynediad ar y we gartref lle bo angen
- Parodrwydd i ymgymryd â gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal a chynhwysiant
- Ymrwymiad i gyfiawnder hinsawdd

**Dymunol:**

- Dealltwriaeth o ddysgu a gwerthuso a diddordeb mewn hynny
- Gwybodaeth am GDPR
- Gwybodaeth am Common/Wealth
- Gwybodaeth am berfformiadau cyfoes a diddordeb ynddynt
- Gallu siarad rhywfaint o Gymraeg
- Gwiriad Manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), er y gallwn ni drefnu hyn

# GWNEUD CAIS AC AMSERLEN

**Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb ac yn annog ceisiadau yn arbennig gan bobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol ac eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant theatr, a chan y rhai sy'n profi gwahaniaethu. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n Ddu, Asiaidd, Roma, o Ddwyrain Ewrop, cwiar, sydd â phrofiad ymarferol o anabledd, cyfrifoldebau gofalu neu sydd â phrofiad o ofal.**

I fynegi eich diddordeb yn y rôl hon, anfonwch eich CV cyfredol, ynghyd â llythyr eglurhaol o ddim mwy na 2 ochr A4 yn nodi sut rydych chi'n bodloni manyleb y person, at **chantal@commonweaththeatre.co.uk** erbyn **10am, dydd Gwener 20 Mehefin.**

Gallwch hefyd ddarparu'r holl wybodaeth hon (CV a sut rydych chi'n bodloni manyleb y person) drwy fideo neu glip sain (dim mwy na 5 munud) a'i hanfon drwy e-bost.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch, drwy e-bostio chantal@commonwealththeatre.co.uk

Cofiwch lenwi ein Ffurflen Cyfle Cyfartal hefyd, sydd ar gael yma.

Bydd y rhai a wahoddir i gyfweliad am y rôl yn cael gwybod erbyn diwedd 24 Mehefin. Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd a ydyn nhw wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. I'r rhai sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn gofyn i chi ddod i gyfarfod anffurfiol gyda dau aelod o'n tîm, wyneb yn wyneb yn ddelfrydol, yn ein swyddfa yn Nwyrain Caerdydd. Cynhelir cyfweliadau ar 1 Gorffennaf.

Ein bwriad yw bod y rôl yn dechrau tua 21 Gorffennaf 2025.



Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
John Ellerman Foundation
Esmée Fairbairn Foundation

COMMONWEALTHTHEATRE.CO.UK INSTAGRAM & X (TWITTER): @COMMON_WEALTHHQ